**SWYDD DDISGRIFIAD A MANYLEB YR UNIGOLYN**

**RHEOLWR CYNHYRCHU INCWM A MARCHNATA – Swydd am Gyfnod Penodedig o 2 Flynedd**

1 **PWRPAS Y SWYDD**

1.1 Cyflymu twf a chynyddu incwm ar draws amrywiaeth eang o Wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys marchnata effeithiol a hyrwyddo cyfleoedd cynhyrchu incwm i'r sector cyhoeddus a phreifat.

2 **CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

2.1 Arwain datblygiad a gweithrediad cynllun tair blynedd sy'n cynnal y nodau strategol a fabwysiadodd y Cyngor yn ddiweddar yn ei Strategaeth Incwm, sy'n anelu at uchafu incwm a marchnata ei wasanaethau cynhyrchu incwm yn effeithiol.

2.2 Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol, integredig o amgylch gwasanaethau sy'n dal y dychymyg, yn cynyddu ymwybyddiaeth o frand y Cyngor ei hun, yn gwreiddio rhagoriaeth ac yn ysgogi gwelliant parhaus.

2.3 Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata integredig drwy ddeall amcanion masnachol, y deilliannau a ddymunir, yr amserlen ar gyfer cyrraedd targedau a'r cyfleoedd am ffioedd a chodi am wasanaethau ar draws y Cyngor.

2.4 Sefydlu dulliau cydweithredol o weithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat wrth fynd ati i farchnata ein cynnyrch, cynyddu busnes ailadroddus ac adeiladu perthnasau proffesiynol cryf.

2.5 Gweithio'n agos â chydweithwyr i ddatblygu a lledaenu Strategaeth Ddigidol y Cyngor er mwyn sefydlu llwyfannau digidol gan gefnogi ac annog cwsmeriaid i'w defnyddio.

2.6 Sefydlu amrywiaeth o ffrydiau incwm newydd gan roi pwyslais penodol ar strategaeth ddigidol y Cyngor i adfer incwm yn brydlon ac yn effeithiol.

2.7 Cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Brif Swyddogion ar waith cysylltiedig â dyledion drwg portffolios gwasanaethau a gweithio gyda'r portffolios i leihau'r ffigwr hwn yn sylweddol.

2.8 Datblygu fframwaith o allbynnau allweddol neu fesurau a fydd yn cynorthwyo gydag adrodd am, a rheoli cynnydd a darpariaeth.

2.9 Ymchwilio i feddwl yn arloesol, a gweithrediad hyn yn Sir y Fflint ac unrhyw effaith ar ffioedd a phrisiau er mwyn sicrhau'r budd eithaf.

2.10 Sicrhau cysylltedd â Chynllun y Cyngor a chefnogi cyflawniad a gwireddiad y targedau sydd ynddo.

2.11 Creu diwylliant masnachol sy'n edrych tuag allan a model cydgysylltiol ar gyfer cynhyrchu incwm ar draws y Cyngor, a chynllunio a datblygu ffrydiau incwm newydd sy'n cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau cyfredol y Cyngor.

2.11 Targedau incwm tyfu incwm newydd fel a ganlyn:
Blwyddyn 1 - £200,000 gan gynyddu £300,000 arall
Blwyddyn 2 - £500,000 gan gynyddu £200,000 arall
Blwyddyn 3 – £700,000

**MANYLEB YR UNIGOLYN**

**Hanfodol**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd cynhyrchu incwm/marchnata
- Hanes profedig o weithredu strategaethau cynhyrchu incwm/marchnata a chyrraedd targedau.
- Y penderfyniad a'r dyfalbarhad angenrheidiol i ddarparu'r targedau incwm cytunedig.
- Y gallu i feddwl yn strategol gyda'r parodrwydd i gefnogi a chynorthwyo meysydd gwasanaeth yn uniongyrchol.
- Sgiliau rhyngbersonol a thrafod rhagorol.
- Ffocws ar ganlyniadau
- Profiad o gasglu a chyflwyno tystiolaeth a deunyddiau ategol effeithiol er mwyn gwella ceisiadau lle bo angen.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag eraill

**Dymunol**

- Lefel uchel o rifedd a llythrennedd
- Sgiliau TG/cyfryngau cymdeithasol cryf, gan gynnwys Excel, Word a PowerPoint (yn gallu rhedeg cyfrif Twitter yn effeithiol).
- Gallu i ddatrys problemau'n effeithiol
- Gallu i gyfathrebu'n effeithiol – ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a thrwy sawl cyfrwng.
- Y gallu i ddatblygu ac adeiladu perthynas effeithiol â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol
- Sgiliau rheoli prosiect a chynllunio rhagweithiol gan dalu sylw manwl i fanylion a chynnal safonau uchel.
- Sgiliau rhagorol mewn casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth o wahanol ffynonellau i gefnogi gweithgaredd cynhyrchu incwm.
- Y gallu i siarad a darllen Cymraeg hyd Lefel 1 o leiaf.

**Cymwysterau**

- Yn ddelfrydol wedi'u haddysgu hyd lefel Gradd neu'n gallu dangos lefel gyfwerth o gyrhaeddiad drwy'r cymwysterau perthnasol neu sgiliau da a enillwyd dros amser.